**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Jane Hutt AC
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

16 Mehefin 2017

Annwyl Jane

**IS-DDEDDFWRIAETH**

Yn ddiweddar fe wnaethom adrodd i'r Cynulliad ynghylch dwy eitem o is-ddeddfwriaeth, sef *Canllawiau Statudol Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio* a'r *Cod Ymarfer ar gyfer darpariaethau rheoli rhywogaethau yng Nghymru*.

Roedd adroddiadau'r Pwyllgor ar gyfer y ddau ddarn o is-ddeddfwriaeth yn nodi y gellid eu drafftio mewn ffordd fwy eglur i helpu cyrff cyhoeddus i ddeall yr hyn y gallant ei wneud, yr hyn y dylent ei wneud a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud, a chanlyniadau peidio â gwneud unrhyw un o'r pethau hynny.

Rydym yn gyffredinol fodlon ag ymateb y Llywodraeth inni ers hynny.

Fodd bynnag, mae'r materion yn yr adroddiadau hyn yn berthnasol i'r holl Weinidogion ac adrannau'r Llywodraeth. Byddwn felly'n ddiolchgar pe gellid tynnu'r materion yn yr adroddiadau at eu sylw i sicrhau bod canllawiau statudol a chodau ymarfer yn cael eu drafftio i sicrhau bod y rheini y maent yn berthnasol iddynt yn gwbl eglur ynghylch yr hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn disgwyl iddynt ei wneud.

Rwy'n amgáu copi o lythyr rydym wedi'i anfon at y Cwnsler Cyffredinol ynghylch mater tebyg.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AC, y Cwnsler Cyffredinol, Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, a Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Huw Irranca-Davies**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.